OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 Rhif 2846 (Cy.234)

# 2010 No. 2846 (W.234)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010

The Local Health Boards (Consultation with Local Dental Committees) (Wales) Regulations 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol, wrth iddo arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau deintyddol sylfaenol, ymgynghori ag unrhyw bwyllgor a gydnabyddir ganddo o dan adran 69 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (p.42) ar yr adegau ac i'r graddau a ragnodir.

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide that a Local Health Board, in the exercise of its functions relating to primary dental services, must consult any committee recognised by it under section 69 of the NHS (Wales) Act 2006 (c.42) on such occasions and to such extent as prescribed.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2846 (Cy.234)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Tachwedd 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Tachwedd 2010* |
| *Yn dod i rym* | *21 Rhagfyr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 69(6) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Ymgynghori â Phwyllgorau Deintyddol Lleol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 21 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(**2**);

ystyr "cyflawnydd" ("*performer*") yw ymarferydd deintyddol sydd wedi hysbysu Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn dymuno cael ei gynrychioli gan Bwyllgor Deintyddol Lleol a'i fod yn cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn yr ardal y mae Pwyllgor Deintyddol Lleol wedi ei ffurfio ar ei chyfer, yn

(**1**) 2006 (p.42).

(**2**) Sefydlwyd BILl Addysgu Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)) a sefydlwyd BILl Aneurin Bevan, BILl Cwm Taf, BILl Hywel Dda, BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr, a BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2846 (W.234)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Local Health Boards (Consultation with Local Dental Committees) (Wales) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 November 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *30 November 2010* |
| *Coming into force* | *21 December 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 69(6) and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Regulations.

**Title, commencement and interpretation**

**1**.–(1) The title of these Regulations is the Local Health Boards (Consultation with Local Dental Committees) (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 21 December 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established in accordance with section 11(2) of the Act(**2**);

"Local Dental Committee" ("*Pwyllgor Deintyddol Lleol*") means a committee recognised by a Local Health Board under section 69 of the Act;

(**1**) 2006 (c.42).

(**2**) Powys Teaching LHB was established under the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148 (W.18)) and Abertawe Bro Morgannwg University LHB, Aneurin Bevan LHB, Betsi Cadwaladr University LHB, Cardiff and Vale University LHB, Cwm Taf LHB and Hywel Dda LHB were established under the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/778 (W.66)).

unol ag adran 56(2) o'r Ddeddf, yn unol â threfniadau adran 64 neu o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol;

ystyr "darparydd" ("*provider*") yw ymarferydd deintyddol sydd, o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol y mae wedi ymrwymo iddo, yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn yr ardal y mae Pwyllgor Deintyddol Lleol wedi ei ffurfio ar ei chyfer;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" ("*primary dental services*") yw gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn unol ag adran 56 o'r Ddeddf; ac

ystyr "Pwyllgor Deintyddol Lleol" ("*Local Dental Committee*") yw pwyllgor a gydnabyddir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan adran 69 o'r Ddeddf.

"performer" ("*cyflawnydd*") means a dental practitioner who has notified a Local Health Board that he or she wishes to be represented by a Local Dental Committee and is performing primary dental services in the area for which a Local Dental Committee is formed, pursuant to section 56(2) of the Act, in accordance with section 64 arrangements or under a general dental services contract;

"primary dental services" ("*gwasanaethau deintyddol sylfaenol*") means dental services provided in accordance with section 56 of the Act; and

"provider" ("*darparydd*") means a dental practitioner who, under a general dental services contract entered into by him or her, is providing primary dental services in the area for which a Local Dental Committee is formed.

**Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau**

**2**. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â Phwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol ynghylch cynllunio a chyflenwi gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn ardal y Bwrdd hwnnw gan gynnwys–

(a) cynigion ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol ychwanegol neu newydd sydd o bwys neu newidiadau o bwys i'r gwasanaethau deintyddol sylfaenol sy'n bodoli eisoes; a

(b) cynigion strategol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau deintyddol a gofal iechyd y geg yn y dyfodol.

**Planning and delivery of services**

**2**. A Local Health Board must consult with a relevant Local Dental Committee on the planning and delivery of primary dental services in the Board's area including–

(a) proposals for significant additional or new primary dental services or significant changes to existing primary dental services; and

(b) strategic proposals for future delivery of dental services and oral health care.

**Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch contractau**

**3**. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol, ar gais darparydd neu gyflawnydd, wahodd Pwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol i gymryd rhan mewn trafodaethau rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a darparydd neu gyflawnydd ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol gan gynnwys trafodaethau ynghylch–

(a) adolygiad blynyddol o berfformiad;

(b) datrys anghydfodau yn lleol;

(c) cynigion i derfynu contractau neu gytundebau; ac

(ch) sancsiynau mewn contractau neu gytundebau.

**Participation in contract negotiations**

**3**. Subject to regulation 6, a Local Health Board must, at the request of a provider or a performer, invite a relevant Local Dental Committee to participate in negotiations between the Local Health Board and a provider or performer for the provision of primary dental services including negotiations relating to–

(a) annual review of performance;

(b) local resolution of disputes;

(c) proposals for contract or agreement termination; and

(d) contract or agreement sanctions.

**Arolygiadau o Bractisau**

**4**. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol wahodd Pwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol i gymryd rhan mewn arolygiadau o bractisau gan y Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol â pharagraff 44 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth

**Practice Inspections**

**4**. Subject to regulation 6, a Local Health Board must invite a relevant Local Dental Committee to participate in practice inspections by the Local Health Board made pursuant to paragraph 44 of Schedule 3 to the National Health Service (General Dental Services Contracts)

Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(1) neu baragraff 44 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(2).

### Holi barn Pwyllgor Deintyddol Lleol

**5**. Yn ddarostyngedig i reoliad 6, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â Phwyllgor Deintyddol Lleol perthnasol os yw Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn nad yw perfformiad clinigol a/neu broffil gweithgareddau triniaeth darparydd neu gyflawnydd yn cydymffurfio â'r hyn y mae Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn ei fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer rhoi triniaeth i gleifion o ran–

(a) ailalwadau priodol;

(b) patrymau atgyfeirio amhriodol;

(c) patrymau rhagnodi eithriadol;

(ch) adroddiadau arolygu anffafriol ar bractisau; a

(d) materion llywodraethu clinigol eraill.

### Eithriad i reoliadau 3, 4 a 5 os bydd argyfwng

**6**. Os bydd argyfwng, pan na fo'n bosibl i Fwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â Phwyllgor Deintyddol Lleol na'i wahodd i gymryd rhan yn unol â rheoliadau 3, 4 neu 5, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r Pwyllgor Deintyddol Lleol mewn ysgrifen cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

(Wales) Regulations 2006(1) or paragraph 44 of Schedule 3 to the National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006(2).

### Seeking views of a Local Dental Committee

**5**. Subject to regulation 6, a Local Health Board must consult a relevant Local Dental Committee if a Local Health Board considers that the clinical performance and/or treatment activity profile of a provider or performer does not conform with what the Local Health Board considers reasonably necessary for the treatment of patients in relation to–

(a) appropriate recalls;

(b) inappropriate referral patterns;

(c) exceptional prescribing patterns;

(d) adverse practice inspection reports; and

(e) other clinical governance matters.

### Exception to regulations 3, 4 and 5 in the event of emergency

**6**. In the event of emergency, where it is not possible for a Local Health Board to consult with or invite participation from a Local Dental Committee pursuant to regulations 3, 4 or 5, the Local Health Board will notify the Local Dental Committee in writing as soon as practicable thereafter.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

26 Tachwedd 2010

26 November 2010

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2006/490 (Cy. 59).

(**2**) O.S. 2006/489 (Cy. 58).

(**1**) S.I. 2006/490 (W.59).

(**2**) S.I. 2006/489 (W.58).

£4.00

W778/12/10 ON